Tachwedd 2023 – Mawrth 2024

# Iechyd a Diogelwch

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Cyflwynir mewn partneriaeth â Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio.

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU

## Digwyddiadau

Wedi mynd i gyfarfod ar fferm gyda Menna Williams, Cyswllt Ffermio, ar fferm Blaenglowon, Talgarreg. Cafwyd cyflwyniad ar systemau pori gan Emily Grant, ymgynghorydd annibynnol a ffermwr defaid o Swydd Perth, sy'n arbenigo mewn helpu cynhyrchwyr defaid a bîff i ddatblygu systemau ffermio gwydn sy'n seiliedig ar borfa. Yn ystod y digwyddiad, trafodwyd trin da byw yn ddiogel a defnyddio ATV yn ddiogel gyda'r ffermwyr a oedd yn bresennol. Rhannwyd llenyddiaeth yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael. Dosbarthwyd arwyddion diogelwch fferm hefyd i bawb oedd yn bresennol.

## Sioeau

### Ffair Aeaf CAFC

Lansiwyd arwyddion diogelwch fferm newydd yn Ffair Aeaf CAFC, a chafwyd galw mawr amdanynt. Cynhaliwyd cystadleuaeth, a chafodd y mynychwyr gyfle i ennill helmed ATV.

Diogelwch fferm a themâu allweddol hyfforddiant sgiliau yn y Ffair Aeaf

Wedi ymgysylltu â'r plant o ysgolion cynradd yn y digwyddiad.

## Case studies



**Ffermwr a anafwyd mewn damwain gydag offer taro pyst yn codi ymwybyddiaeth o ddefnydd diogel**

**Cyrhaeddiad o 16.2mil** gyda'r Brecon and Radnor Express heddiw.

## Hyfforddiant Achrededig

**134** Unigolion a Gefnogwyd

**95** Busnesau a Gefnogwyd

**938** Oriau a Ddarparwyd

**O'r 28 o gyrsiau a oedd ar gael**

**ymgymerwyd â 14 cwrs gan unigolion**

Roedd y cyrsiau'n cynnwys:

- ATV (Eistedd arno) gan gynnwys llwythi ac offer sy'n cael ei lusgo
- Dyfarniad Lefel 3 – Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo, Gweithgynhyrchu neu Adwerthu
- Tryc Codi Telesgopig ar gyfer tir garw
- Gweithio'n ddiogel mewn Amaethyddiaeth / Garddwriaeth

## E-Ddysgu

**388** Unigolion a Gefnogwyd

**178** Busnesau a Gefnogwyd

O'r **8 modiwl a oedd ar gael ar BOSS**, cwblhawyd **7 pwnc** gan unigolion.

Roedd y modiwlau a gwblhawyd yn cynnwys:

- Diogelwch ar y Fferm – Gweithio'n ddiogel â da byw
- Diogelwch ar y Fferm – Gweithio mewn ffordd Ddiogel gyda Cherbydau Aml Dirwedd (ATVs)
- Diogelwch ar y Fferm – Gweithio'n ddiogel â Thractorau
- Uned Orfodol: Iechyd a Diogelwch – Rheoli Risg mewn Coedwigaeth a Ffermio
- Uned Orfodol: Diogelwch Plaladdwyr

## Agrisgôp

**Cynhaliwyd 1 cyfarfod Agrisgôp.**

Roedd y grŵp Agrisgôp hwn yn canolbwyntio ar Iechyd Meddwl a bod ag agwedd gadarnhaol at Iechyd Meddwl.

*"Roedd y cyfarfod yn hynod lwyddiannus gydag ymgysylltiad llawn, a chyflwynwyd cynllun cadarn i symud ymlaen gyda phob aelod yn magu hyder."*

## Hyfforddiant

**Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Fferm gyda Brian Rees gyda Academi yr Ifanc yn y Moody Cow, Llwyncelyn.**




Aeth y 'Welsh Whisperer' i 15 Ysgol Gynradd yng Nghymru, gan hybu **Diolch byth am Bob!**, sef llyfr am ddiogelwch fferm, i 1200 o ddisgyblion.

Mae modiwl e-ddysgu, Diogelwch Plant ar y Fferm, wedi cael ei gyfieithu a bydd ar gael yn yr Haf.

**Fideos**

Lansiwyd fideos diogelwch am drin tryc codi telesgopig ar gyfer tir garw (telehandler) a defnyddio beiciau cwad yn ddiogel ym mis Chwefror ar sianel YouTube Cyswllt Ffermio. Crëwyd fideo yn hybu cystadleuaeth CFfIC yn annog pob sir i gymryd rhan.

**Cyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd sylw i Glyn Davies, Llysgennad Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru a Meleri Jones ar raglen Prynhawn Da ar S4C yn dilyn astudiaeth achos Alwyn Watkins (rhaglen gylchgrawn Gymraeg).

Rhoddwyd sylw i Beca Glyn, Llysgennad Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru, ar raglen Countryfile y BBC.

## Mentora

Cynhaliwyd **4.5** awr o fentora **3** chyfarfod

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora'n cynnwys:

1. Buom yn trafod amrywiaeth o bynciau megis hylendid bwyd ar gyfer arlwyo lefel 2
2. Mae'r mentorai yn gwneud cais am swyddi newydd gan fod y cytundeb presennol yn dod i ben ym mis Ebrill. Cefnogwyd y mentorai i chwilio am gyfleoedd/swyddi/gyrfaoedd eraill a buom yn trafod y pynciau hyn. Roedd gan y mentorai agwedd feddyliol gadarnhaol ynghylch gyrfa newydd ym maes amaethyddiaeth.
3. Y mentorai i gysylltu â'r cyngor lleol i ddeall y rheoliadau o ran defnyddio ei gartref i baratoi bwyd ar gyfer partïon pen-blwydd a chael lefel 2 hylendid bwyd (arlwyo) a lawrlwytho'r PDF Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell a gweithio drwy'r tudalennau.

## Rhwydwaith Ein Ffermydd

Cwblhawyd **100% o'r gwiriadau Iechyd a Diogelwch ar y 15 Fferm Arddangos**.

**Darparwyd DPP Iechyd a Diogelwch** i Ffermwyr Arddangos Ein Ffermydd trwy gyfres o fideos byr gan weithio mewn partneriaeth â Sisters in Wellies.

**12 o brosiectau** ar y fferm ar draws Rhwydwaith Ein Ffermydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch peiriannau, gweithio gydag anifeiliaid, atal codymau ac iechyd bodau dynol (ymwybyddiaeth o filhaint).

**Gweithio gydag anifeiliaid:** Er mwyn lleihau'r angen i drin a thrafod gwartheg bîff, mae peiriant pwyso gwartheg awtomataidd wedi'i osod ar gyfer casglu data'r prosiect ar fferm Tanygraig – A fydd twf cyfadferol yn arwain at leihau costau bwydo heb effeithio ar berfformiad cyffredinol?

**Gweithio gydag anifeiliaid:** Er mwyn cael gwared ar yr angen am samplu llaeth buwch yn unigol ar gyfer Cyfrif Celloedd Somatig, mae GenoCells yn cael ei dreialu yn Moor Farm: Rôl Genocells yw nodi buchod â Chyfrif Cell Somatig uchel o fewn buches gan ddefnyddio un sampl o laeth tanc.

**Iechyd bodau dynol:** Er mwyn codi ymwybyddiaeth o filhaint, mae'r prosiect ar Fferm Graianfryn sy'n canolbwyntio ar gadw lloi wedi cynnwys gosod gorsaf golchi dwylo gyda dŵr poeth – System Dan Do Newydd i Loi ar Fferm Graianfryn.

**Atal codymau a diogelwch peiriannau:** Bydd yr agweddau hyn ar Iechyd a Diogelwch yn cael eu cynnwys yn y prosiect ar fferm Glyn Arthur gan ganolbwyntio ar Adfywio Coetiroedd Presennol trwy reolaeth.

## Cymorth i Fusnesau Garddwriaeth Busnes

**7 sesiwn hyfforddiant, 8 unigolyn, 7 busnes.**

Darparwyd DPP diogelwch bwyd drwy Gymorth Busnes Garddwriaeth i 7 busnes.

Mae hyn wedi eu galluogi i gwblhau'r Safon i Dyfwyr sy'n ofynnol er mwyn gallu cyflenwi *"Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru"*.

Mae 1 Tyfwr wedi penderfynu peidio â chyflenwi yn 2024, ond mae'n gweithio tuag ato ar gyfer 2025. Mae'r 6 Tyfwr arall wedi cwblhau'r safon i dyfwyr ac yn cyflenwi Castell Howell sydd wedyn yn cyflenwi i ysgolion ledled Cymru.

Mae'r grŵp hwn o dyfwyr wedi ffurfio'r clwstwr cadwyn gyflenwi 'Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru".



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government